

galeri



Swydd: RHEOLWR CYLLID (Cyfnod Mamolaeth)
Adran: Cyllid
Yn atebol i'r: Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid

Oriau: 37 awr yr wythnos o Ddydd Llun i Ddydd Gwener
(gyda'r hyblygrwydd i addasu neu weithio oriau ychwanegol pan fo'r angen)

Cyflog: I'w drafod (yn ddibynnol ar brofiad)

Dyddiad cau:	12:00 (hanner dydd)	21 Mehefin, 2019
Cyfweliadau:	Yn ystod wythnos	01 Gorffennaf, 2019
I gychwyn:	Dydd Llun	05 Awst 5, 2019

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:

Sonia Pritchard (Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid) **01286 685 203**

Prif bwrpas y swydd:

Mae'r swydd hon yn atebol i'r Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid a bydd yn gyfle arbennig i deiliad y swydd wynebu her a sialens gyffrous.

Byddwch yn rhan o dîm sy'n cyd-weithio at y nod o sicrhau bod holl brosiectau'r Cwmni yn rhedeg yn llwyddiannus ac effeithiol

Prif Ddyletswyddau:

- Cynorthwyo gyda rheolaeth gweithredu cyfrifylfr pryniant a sicrhau bod pob anfoneb yn cael ei chofnodi yn y cyfnod perthnasol a'r adran gywir.
- Cynnal system archebion pryniant
- Cynorthwyo gyda chyflwyno cyfrifon masnachu ac adroddiadau misol i'r Tîm Rheoli
- Cyfrifiad croniadau, cyndaliadau, incwm cronus ac incwm gohiriedig
- Rheolaeth credyd
- Cynorthwyo gyda rheolaeth y cyfrifylfr gwerthiant, gan gynnwys adennill dyledion
- Cysoniad adrannol

- Sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol a'r eithriadau cywir wedi eu cyflwyno wrth ddychwelyd ffurflenni TAW
- Cysoniad misol banc i'w gwblhau yn brydlon ac yn gywir
- Sicrhau bod y bancio a'r arian traul yn gyfredol ac yn gywir
- Cynorthwyo gyda chyfrifon diwedd blwyddyn ac adroddiadau
- Cyfrifiad dyddlyfrau
- Dadansoddi ynghyd a diweddarau'r brif cyfriflyfr
- Cynnal cofrestr ased sefydlog a chyfrifiadau dibrisio
- Cynnal cofrestr grant a chyfrifiadau amorteiddiad
- Ffeilio a dyletswyddau cyffredinol swyddfa
- Creu adroddiadau i'r Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid

Cymhwysterau a Phrofiad:

- Cymhwysiad AAT, neu yn gweithio tuag ato
- Sgiliau cadw cyfrifon cryf gyda phrofiad blaenorol o gyfrifo a/neu cadw cyfrifon yn hanfodol
- Dealltwriaeth am gyfrifon diwedd mis
- Rhifedd, sylw ar fanylder a chywirdeb
- Egniol, hunan gymhellol a chryf mewn technoleg
- Sgiliau cyfrathrebu a rhyngpersonol rhagorol
- Sgiliau GT cryf (SAGE, Microsoft Office, Excel)
- Sgiliau Gwasanaeth Cwsmer rhagorol
- Y gallu i fedru gweithio fel rhan o dîm bychan
- Y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol

Ebrill 2019



galericaernarfon.com

Twitter: @_Galeri_
 Facebook: /GaleriCaernarfon
 Instagram: /GaleriCaernarfon